Rhan D – Dilysu a chyfrif y pleidleisiau

Etholiad Senedd Ewrop ar 23 Mai 2019: canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol ym Mhrydain Fawr

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Cynnwys

1 Egwyddorion ar gyfer proses dilysu a chyfrif effeithiol 1

2 Paratoi ar gyfer proses dilysu a chyfrif 3

Cynllunio ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif 3

Amseriad y prosesau dilysu a chyfrif 4

Staffio 4

Cynllun y lleoliad dilysu a chyfrif 5

Y tu allan i'r lleoliad 6

Y tu mewn i'r lleoliad 7

Cyfarpar a gosod y cyfarpar 8

Cyfathrebu yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif 9

Rheoli'r rhai sy'n bresennol 10

Diogelu papurau pleidleisio 11

3 Bod yn bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif 13

Rheoli mynediad 14

Asiantiaid cyfrif 15

Arsylwyr achrededig 15

Cynrychiolwyr y Comisiwn 15

Y cyfryngau 16

4 Derbyn deunyddiau o'r gorsafoedd pleidleisio a blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio 17

Derbyn blychau papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u selio 18

5 Dilysu 19

6 Y broses gyfrif 22

Cyfrif y pleidleisiau 22

Derbyn y blychau 22

Cymysgu 22

Didoli a chyfrif 22

Papurau pleidleisio amheus 23

Cysoni 25

Cyfansymiau lleol dros dro ac ailgyfrif 26

Dyrannu seddi 27

1 Egwyddorion ar gyfer proses dilysu a chyfrif effeithiol

1.1 Dylech sicrhau y gall eich trefniadau o ran dilysu a chyfrif gyflawni'r egwyddorion allweddol ar gyfer proses ddilysu a chyfrif effeithiol, sef:

- Mae pob proses yn dryloyw, gyda thrywydd archwilio clir a diamwys.
- Mae'r broses ddilysu yn arwain at ganlyniad cywir. Golyga hyn fod nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch naill ai'n cyfateb i nifer y papurau pleidleisio a ddosbarthwyd fel y'i nodwyd ar y cyfrif papurau pleidleisio neu, os nad felly y mae:

  - fod tarddiad yr amrywiad wedi cael ei nodi ac y gellir ei esbonio, a/neu

  - mae'r blwch wedi cael ei ailgyfrif o leiaf ddwywaith, nes bod yr un nifer o bapurau pleidleisio yn cael eu cyfrif ar ddau achlysur olynol.

- Mae'r broses gyfrif yn arwain at ganlyniad cywir, lle mae cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd i bob plaid gofrestredig ac ymgeisydd unigol a chyfanswm y pleidleisiau a wrthodwyd yn cyfateb i gyfanswm y papurau pleidleisio a roddwyd ar y datganiad dilysu ar gyfer eich ardal gyfrif.
- Mae'r broses dilysu a chyfrif yn amserol.
- Cedwir cyfrinachedd y bleidlais bob amser.
- Cedwir diogelwch papurau pleidleisio a deunyddiau ysgrifenedig eraill bob amser
- Caiff gwybodaeth yn ystod y broses dilysu a chyfrif ei chyfleu mewn ffordd glir ac amserol

1.2 Yn ogystal ag ystyried sut i sicrhau y bydd eich prosesau yn eich galluogi i gydymffurfio â'r egwyddorion allweddol, bydd angen i chi ystyried ffactorau ymarferol perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar y ffordd y caiff y broses dilysu a chyfrif ei threfnu a'i hamseriad. Yn ogystal ag ystyried sut i sicrhau y bydd eich prosesau yn eich galluogi i gyflawni'r egwyddorion allweddol, bydd angen i chi ystyried ffactorau ymarferol perthnasol eraill a fydd yn effeithio ar drefniadau ac amseriad y prosesau dilysu a chyfrif, megis:

- daearyddiaeth eich ardal
- maint a chapasiti eich lleoliad
- cost
- tryloywder i ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr

1.3 Bydd hefyd angen i chi ystyried unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Mae gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gyfrifoldeb am goladu cyfansymiau lleol a datgan y canlyniad ar gyfer yr ardal gyfrif. Mae canllawiau i Swyddogion

Canlyniadau Rhanbarthol ar y prosesau dilysu, cyfrif a choladu canlyniadau i'w gweld yn ein Canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol.

2 Paratoi ar gyfer proses dilysu a chyfrif

2.1 Mae amrywiaeth o ddulliau ar gyfer trefnu prosesau dilysu a chyfrif a'ch cyfrifoldeb chi fel Swyddog Canlyniadau Lleol yw trafod â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ac ystyried unrhyw gyfarwyddyd y bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn penderfynu ei roi ynghylch y broses dilysu a chyfrif er mwyn penderfynu pa ddull yw'r mwyaf priodol ar gyfer eich amgylchiadau lleol. Yn y naill achos neu'r llall, dylai eich cynllun prosiect gynnwys eich trefniadau ar gyfer rheoli'r prosesau dilysu a chyfrif.

Cynllunio ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif

2.2 Fel y nodir yn Rhan B – Cynllunio a threfnu, er mwyn cynllunio'n effeithiol ar gyfer yr etholiad, dylech baratoi cynllun prosiect a gaiff ei drin fel ‘dogfen fyw’, ei adolygu'n gyson a'i ddefnyddio i fonitro cynnydd.

2.3 Dylech sicrhau bod eich cynllun ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif, a chyflawni'r prosesau hynny, yn cael ei adolygu'n gyson, gan ystyried cyd-destun penodol yr etholiad.

2.4 Dylech adolygu eich rhagdybiaethau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn realistig ac yn gadarn, gan gynnwys eich rhagdybiaethau ynglŷn â'r nifer sy'n pleidleisio, nifer y pleidiau a'r ymgeiswyr unigol, cyflymder a gallu'r staff cyfrif a'r amseriad disgwyliedig ar gyfer cwblhau'r camau cyfrif amrywiol. Bydd adolygiad o'r fath yn eich helpu i asesu'n realistig p'un a fyddwch yn gallu cyflawni'r cynllun cyffredinol ar gyfer y cyfrif, a ph'un a fydd angen gweithredu cynlluniau wrth gefn a phryd. Ym mhob achos dylai'ch cynllun fod yn ddigon hyblyg i'ch galluogi i ymateb os bydd unrhyw rai o'ch tybiaethau yn newid, gan gynnwys pa gamau y byddwch yn eu cymryd o dan amgylchiadau o'r fath,

2.5 Er mwyn helpu i fagu hyder yn eich cynlluniau ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif, dylech o leiaf rannu gwybodaeth am eich cynlluniau â phleidiau gwleidyddol, cynrychiolwyr etholedig a darpar ymgeiswyr. Er mwyn helpu i reoli disgwyliadau, dylech hefyd nodi ymlaen llaw pa benderfyniadau ynglŷn â rheoli'r broses gyfrif a wneir drwy ymgynghori neu gytuno â phleidiau, ymgeiswyr unigol ac asiantiaid, a dweud yn glir wrthynt ar ba sail y byddwch yn gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, gall hyn gynnwys penderfyniadau ynghylch ailgyfrif ac atal y cyfrif. Er y dylech geisio barn y rhai yr effeithir arnynt neu sydd â diddordeb er mwyn llywio'ch penderfyniadau, chi sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud y penderfyniadau.

2.6 Mae'r rhannau canlynol o'r bennod hon yn nodi'r gofynion cyfreithiol ac yn darparu canllawiau cyffredinol ar y canlynol:

- amseriad y broses dilysu a chyfrif
- staffio a hyfforddiant
- cyfarpar a chynllun lleoliadau
- rheoli'r rhai sy'n bresennol
- cyfathrebu yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif
- diogelwch papurau pleidleisio

Amseriad y prosesau dilysu a chyfrif

2.7 Mae'n ofynnol i chi wneud trefniadau ar gyfer dilysu cyfrifon y papurau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio, a dylid gwneud hyn mewn trafodaeth â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ac yn unol ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir ganddo. Bydd hefyd angen i chi brosesu unrhyw bleidleisiau post a dderbyniwyd ar ddiwrnod yr etholiad, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i orsafoedd pleidleisio. Rhaid i chi bennu'r amser y bydd y broses ddilysu yn cael ei chynnal a rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o'r amser a'r lleoliad y bydd y broses ddilysu yn dechrau.

2.8 Mae'n ofynnol i chi wneud trefniadau ar gyfer cyfrif y pleidleisiau fel bod y datganiad o gyfansymiau lleol yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr 'amser perthnasol', h.y., 10pm nos Sul 26 Mai, pan fydd y cyfnod pleidleisio wedi dod i ben ledled yr Undeb Ewropeaidd gyfan. Er y gallwch ddechrau cyfrif y pleidleisiau ar unrhyw adeg unwaith y bydd y broses ddilysu wedi'i chwblhau, ni ddylech chi a'ch staff ddatgelu nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer unrhyw blaid neu ymgeisydd unigol (yn cynnwys cyfansymiau lleol dros dro) i unrhyw un heblaw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu eu clerciaid tan ar ôl yr amser perthnasol. Ni waeth pa gam y mae'r cyfrif wedi'i gyrraedd erbyn yr amser perthnasol, ni ellir ystyried yn ôl y gyfraith bod y cyfrif wedi'i gwblhau tan ar ôl yr amser hwnnw ac ni all yr un o'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn ar ôl cwblhau'r cyfrif (er enghraifft, rhannu cyfansymiau lleol dros dro ag unrhyw ymgeisydd ac asiant sy'n bresennol na datgan y cyfansymiau lleol) tan ar ôl yr amser hwnnw. Dylech egluro hyn wrth yr ymgeiswyr a'r asiantiaid a phobl eraill sy'n bresennol yn y wybodaeth a roddwch iddynt am y trefniadau ar gyfer y cyfrif, a phan fyddwch yn cyfathrebu yn y digwyddiad cyfrif ei hun.

Staffio

2.9 Er mwyn sicrhau y gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidleisiau eu cyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt, bydd angen i chi sicrhau bod adnoddau priodol ar gael er mwyn sicrhau bod y broses dilysu a chyfrif yn amserol.

2.10 Mae'n bwysig sicrhau bod gennych y nifer gywir o staff cymwys, medrus a gwybodus – a bod pob aelod o staff yn glir ynghylch ei rôl – fel bod y cyfrif yn digwydd yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn ôl egwyddorion Pennod – Egwyddorion ar gyfer proses dilysu a chyfrif effeithiol. Dylech hefyd sicrhau bod nifer briodol o staff wrth gefn rhag ofn y bydd unrhyw staff yn absennol ar ddiwrnod y cyfrif.

2.11 Dylech sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chyfarwyddiadau priodol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol ac yn unol â'r gyfraith. Dylai'r hyfforddiant gynnwys yr hyn y dylai staff edrych amdano wrth archwilio papurau pleidleisio er mwyn penderfynu beth y dylid ei gynnwys yn y cyfrif.

Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod adnoddau priodol ar gael er mwyn gwneud yn siŵr bod y prosesau dilysu a chyfrif yn amserol.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi nodi sut y caiff y prosesau dilysu a chyfrif eu trefnu a'u rheoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych wrth wneud eich penderfyniad.

Mae rhagor o ganllawiau ar staffio ar gyfer y prosesau dilysu a chyfrif, a hyfforddi staff dilysu a chyfrif, ar gael yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

Cynllun y lleoliad dilysu a chyfrif

Mae rhagor o ganllawiau ar nodi a dewis lleoliadau dilysu a chyfrif ar gael yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

2.12 Dylid paratoi cynllun o'r lleoliad dilysu a chyfrif ar gam cynnar. Bydd cynllun da yn un sydd wedi'i lywio gan y model dilysu a chyfrif y byddwch yn penderfynu ei fabwysiadu, ac sy'n ystyried y llifau gwaith rydych yn bwriadu eu dilyn a'r lle a fydd ar gael i chi.

2.13 Er mwyn sicrhau y gall ymgeiswyr fod yn hyderus bod y broses gyfrif wedi'i rheoli'n dda a bod y canlyniadau yn gywir, bydd angen i chi sicrhau bod eich holl brosesau'n dryloyw, gyda phopeth yn ystod y broses dilysu a chyfrif yn cael ei wneud yng ngolwg pawb sydd â hawl i fod yn bresennol.

2.14 Dylech hefyd sicrhau bod yr holl gyfarpar wedi ei brofi cyn cynnal y prosesau dilysu a chyfrif a bod gennych gynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd y cyfarpar neu'r pŵer yn methu.

Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod y prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r prosesau dilysu a chyfrif yn digwydd yng ngŵydd pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol am y prosesau i'w dilyn.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen sicrhau bod gennych gynllun o leoliad y cyfrif a gwybodaeth i'w rhoi i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfrif.

2.15 Wrth ystyried sut i drefnu'r broses dilysu a chyfrif, ynghyd ag unrhyw arweiniad neu gyfarwyddyd arall a roddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylid hefyd ystyried y ffactorau canlynol:

- Nifer y byrddau sy'n ofynnol – dylid bod digon o fyrddau ar gyfer nifer y cynorthwywyr cyfrif a benodwyd gennych ac ar gyfer y prosesau fydd yn ofynnol yn yr etholiad penodol hwn.

- Cynllun y byrddau – dylid sicrhau bod pawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol allu gweld yn rhwydd a dylai ystyried nifer y pleidiau ac ymgeiswyr unigol sy'n sefyll, yn ogystal â maint y papur pleidleisio.

- Ardaloedd cylchdroi a faint o le sydd ar gael o amgylch y byrddau – dylid sicrhau cymaint o le â phosibl, a dylid tynnu unrhyw rwystrau fel dodrefn wedi'i storio.

- Seddi – dylid sicrhau bod digon o seddi ar gael i'r rhai sydd â hawl i fod yn bresennol.

- Mynediad – dylai'r ystafell gael ei gosod mewn ffordd sy'n sicrhau bod pob rhan o'r gweithrediadau yn hygyrch i unrhyw un sydd â hawl i fod yn bresennol, gan gynnwys pobl anabl.

- Systemau annerch y cyhoedd – dylid profi'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio ac i ganfod cwmpas effeithiol y system fel y gellir hysbysu'r sawl sy'n bresennol yn y cyfrif ynghylch ble yn y lleoliad y byddant yn gallu clywed cyhoeddiadau yn glir.

- Gofynion y cyfryngau – dylech ystyried darparu ardal ar wahân ar gyfer y cyfryngau gan ei bod yn debygol y bydd angen lle arnynt ar gyfer eu cyfarpar arbenigol, a all fod yn swmpus.

- Iechyd a diogelwch – mae gennych gyfrifoldeb am iechyd a diogelwch pob unigolyn sy'n bresennol a dylid ystyried y cyfrifoldeb hwn wrth benderfynu ar gynllun y lleoliad. Er enghraifft, ni ddylai unrhyw geblau o gyfarpar neu gamerâu'r cyfryngau beri i unrhyw un faglu yn ystod y gweithrediadau; ac ni ddylid rhwystro allanfeydd argyfwng mewn unrhyw ffordd. Ni ddylid gadael mwy o bobl i mewn i'r lleoliad na'r uchafswm a ganiateir, a dylid cael trefniadau diogelwch priodol er mwyn sicrhau mai dim ond y sawl sydd â hawl i fod yn bresennol sydd yno.

2.16 Dylid dynodi mannau penodedig ar gyfer swyddogaethau gwahanol a dylid sicrhau bod dodrefn ac adnoddau priodol ar gael. Dylech ystyried dynodi'r mannau canlynol:

Y tu allan i'r lleoliad

2.17 Lleoedd parcio a mynediad i gerbydau - Dylid ystyried trefn mynediad cerbydau o gwmpas y lleoliad dilysu a chyfrif yn ofalus. Fe'ch cynghorir i ddynodi mannau parcio gwahanol ar gyfer ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr, a staff. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd cael mynedfa ac allanfa ddynodedig i'r

maes parcio, a all helpu i osgoi tagfeydd, fel pan fydd y blychau pleidleisio yn cyrraedd o'r gorsafoedd pleidleisio.

2.18 Gall fod yn ddefnyddiol cael staff yn goruchwylio'r maes parcio ar yr adeg hon. Dylai unrhyw staff sy'n gweithio yn y maes parcio gael dillad diogelwch priodol fel siacedi llachar, a dylid eu hyfforddi i ddelio â llawer o draffig gan gynnwys, er enghraifft, asiantiaid cyfrif yn cyrraedd ar gyfer y gweithrediadau a staff gorsafoedd pleidleisio yn cyrraedd gyda blychau pleidleisio.

Y tu mewn i'r lleoliad

2.19 Ardal derbyn – Dyma'r ardal y bydd blychau pleidleisio, cyfrifon papurau pleidleisio a deunydd swyddfa a chyfarpar arall gorsafoedd pleidleisio yn cyrraedd er mwyn eu derbyn a'u didoli. Yn ddelfrydol, dylai fod gan yr ardal derbyn fynedfa ar wahân i'r un a ddefnyddir gan staff eraill, ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr, gyda mynediad uniongyrchol o'r maes parcio neu'r man llwytho. Dylid gosod staff yma er mwyn derbyn y deunyddiau a dylent gael rhestr wirio er mwyn marcio'r blychau pleidleisio wrth iddynt gyrraedd.

2.20 Byrddau dilysu a chysoni – Dyma ble y bydd staff dilysu yn dilysu cynnwys y blychau pleidleisio ac yn cysoni cyfanswm y pleidleisiau. Os defnyddir gliniaduron, dylid ystyried trefniadau o ran ceblau ynghyd â threfniadau wrth gefn os bydd cyfarpar yn methu.

2.21 Bwrdd y Swyddog Canlyniadau Lleol – Dyma lle y dylai gwerslyfrau cyfreithiol, canllawiau'r Comisiwn Etholiadol, nodiadau gweithdrefnol, cyfarwyddiadau dros ben ar gyfer staff, rhestrau staff, deunydd swyddfa a deunyddiau canllaw eraill gael eu cadw er mwyn cyfeirio atynt.

2.22 Ardal ar gyfer cyfathrebu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol – Bydd angen i chi gyfathrebu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol drwy gydol y cyfrif. Felly, dylech gydgysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, gan ystyried ei brotocol ar gyfer coladu canlyniadau, er mwyn trafod unrhyw ofynion i sicrhau y gall y cyfathrebu hwn fynd rhagddo.

2.23 Byrddau cyfrif – Dylai'r rhain wahanu'r staff a'r asiantiaid cyfrif yn briodol. Os bydd digon o le, dylid darparu seddi yn agos i'r byrddau hyn ar gyfer asiantiaid cyfrif ac arsylwyr.

2.24 Pleidleisiau post - Os caiff pleidleisiau post eu hagor aa'u dilysu yn y lleoliad dilysu a chyfrif, dylid neilltuo man ar wahân i brosesu pleidleisiau post heb eu hagor a ddosbarthwyd o orsafoedd pleidleisio. Rhaid i bleidleisiau post gael eu hagor yng ngolwg yr ymgeiswyr, asiantiaid a'r arsylwyr sy'n bresennol. Dylid neilltuo digon o le i dderbyn a dilysu'r pleidleisiau post hyn, a galluogi pobl i arsylwi'r broses hon. Os defnyddir system awtomataidd i ddilysu'r dynodwyr personol, dylid ystyried trefniadau o ran rhwydweithiau a cheblau.

2.25 Byrddau ar gyfer papurau pleidleisio a gyfrifwyd – Unwaith i'r papurau pleidleisio gael eu trefnu a'u cyfrif, dylid eu rhoi mewn bwndeli ar fwrdd ar wahân, fel bod yr holl bleidleisiau ar gyfer pob plaid wleidyddol ac ymgeisydd

unigol yn cael eu cadw gyda'i gilydd, gyda chardiau rhannu yn cael eu defnyddio i ddangos rhif y cytunwyd arno, fel 100.

2.26 Ardal ar gyfer ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr a gwesteion – Gall fod yn fuddiol cael ardal ar wahân ar gyfer ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr a gwesteion. Os bydd digon o le, gellid darparu teledu mewn ystafell gerllaw.

2.27 Ardal ar gyfer lluniaeth - Dylech ystyried darparu ardal lle gall cynorthwywyr cyfrif ac aelodau eraill o staff gael diodydd a byrbrydau. Mae'n bwysig bod digon o luniaeth ar gael er mwyn helpu i gynnal egni a lefelau canolbwyntio'r staff drwy gydol y broses. Ni ddylech ganiatáu i gynorthwywyr cyfrif fwyta nac yfed wrth y byrddau cyfrif er mwyn osgoi'r posibilrwydd o unrhyw arllwysiadau. Dylech ystyried p'un a ddylid darparu lluniaeth i ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr a phobl eraill sy'n bresennol, a ph'un a ddylid codi tâl arnynt.

2.28 Ardal i'r cyfryngau – Bydd y gofynion ar gyfer ardal y cyfryngau yn dibynnu ar y mathau o gyfryngau a gynrychiolir a'u hanghenion. Er enghraifft, os bydd camerâu teledu yn bresennol, ni ddylai unrhyw oleuadau achosi gwres neu lewyrch diangen a allai amharu ar effeithlonrwydd y cyfrif, ac ni ddylid caniatáu i gamerâu gymryd siotiau agos o'r papurau pleidleisio. Yn ogystal, mae'n bwysig sicrhau nad oes unrhyw geblau hir i'r rhai sy'n mynychu'r cyfrif faglu drostynt, a bod unrhyw gyfarpar yn cael ei osod mewn man diogel.

Cyfarpar a gosod y cyfarpar

2.29 Dylech sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei brofi cyn y prosesau dilysu a chyfrif, gan gynnwys:

- systemau annerch y cyhoedd
- llinellau ffôn
- cyfarpar TG cyffredinol
- os caiff y broses derfynol o agor pleidleisiau post ei chynnal yn y lleoliad dilysu a chyfrif, cyfarpar ar gyfer dilysu dynodwyr personol
- mannau pŵer

2.30 Pa systemau a chyfarpar bynnag a ddefnyddir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a chyfansymiau lleol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, dylid gosod y rhain a'u profi cyn y broses dilysu a chyfrif, ac yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau a roddir gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

2.31 Dylai cynlluniau wrth gefn fod ar waith rhag ofn y bydd y cyfarpar neu'r pŵer yn methu.

2.32 Dylech baratoi rhestr wirio o'r holl ddeunyddiau, yn cynnwys deunydd swyddfa a chyfarpar, y bydd eu hangen yn y lleoliad dilysu a chyfrif, a allai gynnwys:

- taflenni cofrestru ar gyfer staff

- rhestr o'r holl staff
- copïau dros ben o gyfarwyddiadau i staff
- pasys mynediad enghreifftiol, gan gynnwys samplau o'r bathodynnau adnabod sydd gan gynrychiolwyr y Comisiwn ac arsylwyr achrededig
- taflenni dilysu – os caiff gliniadur ei ddefnyddio, gellid paratoi'r taenlenni ymlaen llaw. Fe'ch cynghorir i sicrhau bod copïau papur o'r taenlenni ar gael hefyd rhag ofn y bydd y cyfarpar yn methu
- blychau pleidleisio drwy'r post ac amlenni cysylltiedig
- Cyfrifiadur personol/gliniadur, argraffydd a llungopïwr
- taflenni cyfansymiau lleol
- cyfarwyddiadau/canllawiau/protocol gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ac unrhyw ddeunydd swyddfa a ddefnyddir ar gyfer cyfathrebu â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol
- stamp 'gwrthodwyd' a phad inc
- stamp 'gwrthodwyd dros dro' ar gyfer unrhyw sesiwn agor pleidleisiau post derfynol
- blychau didoli (gellir nodi'r rhain ag enwau plaidiau ac ymgeiswyr unigol)
- cardiau er mwyn rhannu papurau pleidleisio a gyfrifwyd, e.e. wedi'u marcio mewn 100oedd
- llyfrau cyfeirio cyfraith etholiadol
- Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol
- offer agor llythyrau a sisyrnau
- sachau a chlymau ar gyfer papurau pleidleisio sydd wedi'u cyfrif
- pecynnau neu amlenni ar gyfer papurau pleidleisio a wrthodwyd
- eitemau ysgrifennu amrywiol, gan gynnwys pennau marcio, pensiliau, prennau mesur, tâp gludiog, papur nodiadau, llinyn, gwniaduron rwber, clipiau papur a bandiau rwber
- cyfrifianellau
- blwch mawr neu gynhwysydd arall i gymysgu a storio papurau pleidleisio a ddilyswyd os na chaiff blychau pleidleisio gwag eu defnyddio at y diben hwnnw

Cyfathrebu yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif

2.19 Mae cyfathrebu da, mewn briffiadau i ymgeiswyr ac asiantiaid cyn y prosesau dilysu a chyfrif ac yn y digwyddiad ei hun, yn galluogi'r rhai sy'n bresennol i graffu'n briodol ar yr holl brosesau a bydd yn helpu i ennyn hyder yn y ffordd y caiff y prosesau dilysu a chyfrif ei gweinyddu. Gall rhoi gwybodaeth am y prosesau i'w dilyn hefyd helpu i leihau nifer yr ymholiadau a geir gan ymgeiswyr ac asiantiaid – yn enwedig gan ymgeiswyr neu asiantiaid newydd neu ddibrofiad – a thrwy hynny leihau'r pwysau ar y staff.

2.20 Dylech lunio a dosbarthu pecyn gwybodaeth i unrhyw un sy'n mynychu'r broses gyfrif sy'n cynnwys, er enghraifft, wybodaeth am y cyfleusterau, y prosesau a'r hyn y gall y rhai sy'n bresennol ddisgwyl ei weld a'r gweithdrefnau ar gyfer datgan y canlyniad.

2.21 Dylech hefyd sicrhau bod cyfathrebiadau amserol a chydgysylltiedig ar gael drwy gydol y prosesau dilysu a chyfrif, er enghraifft, drwy ddefnyddio

system annerch y cyhoedd, er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chyfleu mewn ffordd sy'n caniatáu i'r rheini sy'n bresennol ddeall yn llwyr beth sy'n digwydd, ble a phryd a thynnu sylw ymgeiswyr ac asiantiaid at unrhyw brosesau penodol lle mae angen iddynt fod yn bresennol (e.e. wrth ddyfarnu papurau pleidleisio amheus).

2.22 Er mwyn sicrhau cyfathrebu tryloyw rhwng staff cyfrif ac eraill sy'n bresennol yn y cyfrif (gan gynnwys asiantiaid cyfrif) dylech nodi'n glir mewn cyfarwyddiadau i'r rhai a fydd yn bresennol yn y cyfrif y dylai unrhyw gwestiynau gael eu codi drwy oruchwylwyr cyfrif yn hytrach na chynorthwywyr cyfrif.

2.23 Hefyd, os bydd asiantiaid neu arsylwyr yn anfodlon o gwbl ar y modd y caiff y prosesau eu cynnal, dylai fod cyfle bob amser iddynt wneud sylwadau'n uniongyrchol i chi ar y cyfle cyntaf posibl fel y gallwch ystyried unrhyw bryderon, rhoi esboniadau a sicrwydd, a chymryd unrhyw gamau unioni os bydd angen.

Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod y prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r prosesau dilysu a chyfrif yn digwydd yng ngŵydd pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol am y prosesau i'w dilyn.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen sicrhau bod gennych gynllun o leoliad y cyfrif, gwybodaeth i'w rhoi i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfrif a threfniadau ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfrif.

2.24 Dylech hefyd ystyried y canlynol wrth benderfynu ar y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i unrhyw un a fydd yn bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif am y prosesau sydd i'w dilyn, a sut y byddwch yn ei rhoi:

- Gosod posteri a byrddau gwybodaeth ym mhob rhan o'r lleoliad dilysu a chyfrif, sy'n dangos yr aelodau allweddol o staff ac yn rhoi trosolwg o'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn helpu'r rhai sy'n bresennol i ddeall beth sy'n digwydd a ble. Efallai y byddwch am roi lluniau ohonoch chi a'ch staff allweddol er mwyn helpu'r rhai sy'n bresennol i'ch adnabod yn y cyfrif. Gallech hefyd ddarparu'r wybodaeth hon cyn y cyfrif, er enghraifft fel rhan o lyfryn gwybodaeth.
- Darparu cynllun diwyg o'r lleoliad, sy'n nodi'r prif ardaloedd o ddiddordeb i asiantiaid cyfrif ac arsylwyr.
- Penodi aelod o staff i ymateb i ymholiadau a gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr a staff allweddol.
- Dosbarthu taflen sy'n rhestru rhifau pob blwch pleidleisio ac enwau'r gorsafoedd pleidleisio y maent yn ymwneud â hwy.

Rheoli'r rhai sy'n bresennol

2.25 Dylai'ch cynlluniau gynnwys ffyrdd o reoli disgwyliadau'r rhai sy'n bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif, fel y bydd pawb yn gwybod beth

i'w ddisgwyl a beth yw eu rôl. Dylent hefyd gwmpasu sut y byddwch yn cynnal cyfrinachedd y bleidlais drwy gydol y prosesau dilysu a chyfrif.

2.26 Dylech sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn y cyfrif, gan gynnwys ymgeiswyr, eu gwesteion, asiantiaid etholiad, asiantiaid cyfrif, arsylwyr a'r cyfryngau, yn cael eu briffio ar y ffordd y cynhelir y broses gyfrif a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt bob amser, a'u bod yn deall y rhain yn llawn. Dylech nodi'n glir mewn briffiadau ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb i'r rhai a fydd yn bresennol na fyddwch yn caniatáu iddynt fod yn lleoliad y cyfrif os bydd eu hymddygiad yn amharu ar y broses o gynnal y cyfrif yn effeithiol. Dylai hyn helpu'r staff cyfrif i ddilysu a chyfrif pleidleisiau heb ymyrraeth gan asiantiaid cyfrif nac arsylwyr eraill.

2.27 Dylech hefyd benderfynu ar bolisi ynglŷn â defnyddio ffonau symudol a ffotograffiaeth / ffilmio yn y lleoliad dilysu a chyfrif a rhoi'r wybodaeth hon ymlaen llaw i'r rhai sydd â'r hawl i fod yn bresennol.

2.28 Dylid dosbarthu tocynnau neu gardiau mynediad i bawb sydd â'r hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif, ac eithrio arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn a fydd yn gwisgo bathodynnau achredu pinc neu arian. Dylech ystyried dosbarthu tocynnau neu gardiau mynediad mewn lliwiau gwahanol er mwyn nodi'r categorïau gwahanol o unigolion a fydd yn bresennol.

2.29 Dylech gydgysylltu â'r heddlu i gadarnhau y bydd eu cynlluniau ar gyfer rheoli'r mannau cyhoeddus y tu allan i leoliad y cyfrif yn ei gwneud yn bosibl i bobl sydd â'r hawl i fod yn bresennol yn y cyfrif ddod i mewn a gadael y lleoliad yn ddirwystr.

Gweler Pennod 3 – Bod yn bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif i gael rhagor o ganllawiau ar bwy sydd â hawl i fod yn bresennol wrth ddilysu a chyfrif.

Diogelu papurau pleidleisio

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod papurau pleidleisio'n cael eu storio'n ddiogel bob amser.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith ar gyfer storio papurau pleidleisio'n ddiogel.

2.30 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau diogelwch y papurau pleidleisio a'r deunydd ysgrifennu perthnasol o'r adeg y bydd gorsafoedd pleidleisio yn cau hyd at ddatgan y cyfansymiau lleol, yn enwedig lle bo toriad yn ystod y dydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r papurau pleidleisio gael eu storio'n ddiogel rhwng diwedd y broses ddilysu a dechrau'r broses gyfrif.

2.31 Dylech sicrhau bod y papurau pleidleisio yn ddiogel bob amser drwy eu storio dan sêl mewn blychau pleidleisio mewn man diogel, gan ganiatáu i asiantiaid osod eu seliau ar y blychau pleidleisio. Ar ddechrau'r broses gyfrif,

dylech agor y blychau pleidleisio sydd wedi'u selio o flaen unrhyw ymgeiswyr ac asiantiaid sy'n bresennol, er mwyn iddynt allu bod yn fodlon nad oes neb wedi ymyrryd â'r papurau pleidleisio na'r blychau pleidleisio.

2.32 Dylech ystyried cydgysylltu â'ch Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu lleol wrth benderfynu ar y dull mwyaf priodol o sicrhau storio diogel.

2.33 Dylech hefyd roi gwybod i ymgeiswyr ac asiantiaid am eich trefniadau, er mwyn sicrhau eu bod yn ymddiried yn uniondeb y cyfrif.

3 Bod yn bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif

Er mwyn gallu cyflawni'r canlyniad a nodwyd yn safon perfformiad 2, bydd angen i chi sicrhau bod y prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r prosesau dilysu a chyfrif yn digwydd yng ngŵydd pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r rhai sy'n bresennol am y prosesau i'w dilyn.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniad, bydd angen sicrhau bod gennych gynllun o leoliad y cyfrif, gwybodaeth i'w rhoi i'r rhai sy'n bresennol yn y cyfrif a threfniadau ar gyfer rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfrif.

3.1 Mae gan y bobl ganlynol yr hawl i fod yn bresennol yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif:

- y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'i staff
- chi a'ch staff
- ymgeiswyr unigol ac ymgeiswyr ar restr plaid
- un gwestai fesul ymgeisydd unigol ac ymgeisydd ar restr plaid
- asiantiaid etholiad (gall unrhyw is-asiant a benodir ar gyfer ardal sydd wedi'i chynnwys o fewn yr ardal gyfrif fod yn bresennol pan na fydd yr asiant etholiad yn bresennol)
- asiantiaid cyfrif
- cynrychiolwyr y Comisiwn
- arsylwyr achrededig
- unrhyw unigolyn arall a gaiff ganiatâd gennych chi i fod yn bresennol (gweler paragraff **3.6** isod)

3.2 Rhaid i chi hysbysu asiantiaid cyfrif yn ysgrifenedig o'r amser y byddwch yn dechrau dilysu a chyfrif pleidleisiau a'r lleoliad.

3.3 Rhaid i chi roi cyfleusterau rhesymol i asiantiaid cyfrif ar gyfer goruchwylio'r broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau. Dylech hefyd sicrhau bod unrhyw un arall sydd â hawl i fod yn bresennol yn gallu gweld yr hyn sy'n digwydd yn glir, gan sicrhau hefyd na fydd modd iddynt ymyrryd â gwaith eich staff.

3.4 Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau na fydd neb sy'n bresennol yn ymyrryd â chyfrinachedd y bleidlais nac yn ei pheryglu. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i chi wneud y cyfryw drefniadau ag y gwelwch yn briodol i sicrhau bod pawb sy'n bresennol yn cael copi o'r gofynion perthnasol ynglŷn â chyfrinachedd.

3.5 Nid oes gofyniad i'r rhai sy'n bresennol gyrraedd erbyn amser penodol, felly dylid gadael i'r rhai sydd â hawl i fod yn bresennol ddod i mewn pryd bynnag y byddant yn cyrraedd. Hefyd, dylai fod gweithdrefn ar waith er mwyn

sicrhau nad oes neb sydd am adael a dychwelyd yn nes ymlaen yn cael ei rwystro rhag gwneud hynny.

3.6 Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu y gallwch, yn ôl eich disgresiwn, ganiatáu i bobl eraill fod yn bresennol os:

- rydych yn fodlon na fydd yn amharu ar y gallu i ddilysu neu gyfrif pleidleisiau yn effeithlon ac,
- mewn perthynas â'r cyfrif, rydych hefyd wedi ymgynghori â'r asiantiaid etholiad ac is-asiantiaid (os o gwbl) neu'n meddwl na fyddai'n ymarferol gwneud hynny.

3.7 Er nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith, dylech ymgynghori â'r asiantiaid etholiad ac unrhyw is-asiantiaid wrth ganiatáu i bobl fod yn bresennol yn ystod y broses ddilysu yn ôl eich disgresiwn.

Rheoli mynediad

3.8 Ac eithrio arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn, dylid rhoi tocynnau neu basys mynediad i bawb sydd â hawl i fod yn bresennol yn y broses gyfrif. Dylech ystyried dosbarthu tocynnau neu gardiau mynediad mewn lliwiau gwahanol er mwyn nodi'r categorïau gwahanol o unigolion a fydd yn bresennol.

3.9 Dylech roi rhestrau o'r bobl hynny sydd â'r hawl i fod yn bresennol wrth fynedfa lleoliad y dilysu a chyfrif, a chyfarwyddo'r staff diogelwch/staff wrth y drws i wirio pasys unrhyw un sy'n ceisio dod i mewn. Fodd bynnag, dylid briffio'r staff diogelwch hefyd nad oes angen i gynrychiolwyr y Comisiwn nac arsylwyr achrededig roi gwybod ymlaen llaw lle y bwriadant arsylwi ac felly na fyddant yn ymddangos ar eu rhestr o bosibl ond eto i gyd fod ganddynt hawl i ddod i mewn i'r lleoliad dilysu a chyfrif ar ôl dangos eu bathodyn adnabod fel arsylwr neu gynrychiolydd y Comisiwn.

Mae rhagor o ganllawiau ar arsylwyr achrededig a chynrychiolwyr y Comisiwn, gan gynnwys canllaw cyflym ar fathau o fathodynnau arsylwyr, ar gael yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

3.10 Am resymau iechyd a diogelwch, dylech gofnodi enwau pawb sy'n bresennol yn y prosesau dilysu a chyfrif. Bydd hyn hefyd yn helpu staff diogelwch/staff wrth y drws i adnabod p'un a oes gan is-asiant penodol hawl i fod yn bresennol, gan mai dim ond os nad yw'r asiant etholiad yn bresennol y bydd gan is-asiantiaid hawl i fod yn bresennol. Fodd bynnag, mae gennych y disgresiwn i ganiatáu i is-asiantiaid fod yn bresennol yn ogystal ag asiantiaid etholiad fel y nodir ym mharagraff **3.6** uchod.

Asiantiaid cyfrif

Ceir rhagor o ganllawiau ar benodi asiantiaid cyfrif yn Rhan C – Gweinyddu'r bleidlais.

3.11 Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cyfleusterau rhesymol ar gyfer asiantiaid cyfrif er mwyn iddynt oruchwylio'r broses o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau, a rhoi gwybodaeth berthnasol iddynt. Yn arbennig, mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol, lle caiff pleidleisiau eu cyfrif drwy ddidoli'r papurau pleidleisio fesul plaid gofrestredig neu ymgeisydd unigol a gafodd bleidlais ac wedyn cyfrif pob set o bapurau pleidleisio, mae gan yr asiantiaid cyfrif hawl i ddisgwyl bod y papurau pleidleisio wedi'u didoli'n gywir.

Arsylwyr achrededig

3.12 Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol, a dylid gofalu na chaiff arsylwyr eu rhwystro na'u hatal rhag arsylwi. Er y caniateir i chi gyfyngu ar nifer yr arsylwyr a all fod yn bresennol ar unrhyw adeg benodol yn ystod y broses dilysu a chyfrif, dylech fod yn ofalus wrth wneud hynny. Nid oes gennych hawl i rwystro pob arsylwr rhag bod yn bresennol yn y prosesau dilysu a chyfrif, dim ond cyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg, a dylid defnyddio'r disgresiwn hwn mewn modd rhesymol.

3.13 Os byddwch yn atal mynediad, neu'n gofyn i arsylwr achrededig adael y prosesau dilysu neu gyfrif oherwydd camymddwyn, dylech sicrhau bod llwybr archwilio er mwyn cefnogi eich penderfyniad.

3.14 Rhaid i chi ystyried Cod Ymarfer y Comisiwn i arsylwyr wrth reoli presenoldeb arsylwyr. Os cewch unrhyw broblemau gydag arsylwr sy'n bresennol yn y broses gyfrif, cysylltwch â'ch tîm lleol yn y Comisiwn cyn gynted â phosibl.

Mae rhagor o ganllawiau ar arsylwyr achrededig ar gael yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

Cynrychiolwyr y Comisiwn

3.15 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn hefyd yr hawl i fod yn bresennol yn y broses dilysu a chyfrif ac arsylwi ar eich arferion gwaith. Gallant ofyn cwestiynau i'ch staff ac asiantiaid, ond ni wnânt hynny os byddai'n amharu neu'n aflonyddu ar y gweithrediadau. Ni chewch gyfyngu ar nifer cynrychiolwyr y Comisiwn yn y prosesau dilysu a chyfrif.

Y cyfryngau

3.16 Bydd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol gynllun cyfryngau ar gyfer y rhanbarth cyfan a dylech ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod eich negeseuon a'ch dull gweithredu yn y broses dilysu a chyfrif yn gyson â'r rhai mewn mannau eraill o'r rhanbarth etholiadol.

3.17 Dylech gynnwys lle a chyfle i'r cyfryngau gyflwyno adroddiadau ar y cyfansymiau lleol. Mae gennych ddisgresiwn i benderfynu pa gynrychiolwyr o'r cyfryngau a gaiff ganiatâd i fod yn bresennol. Fel gyda phawb arall sy'n bresennol, rhaid i chi sicrhau na fydd cynrychiolwyr y cyfryngau yn ymyrryd â'r broses nac yn peryglu cyfrinachedd y bleidlais.

3.18 Dylech sicrhau bod tîm cysylltiadau cyhoeddus yr awdurdod lleol yn bresennol i ddelio ag ymholiadau gan y cyfryngau. Dylech sicrhau eu bod yn cael eu briffio ag unrhyw linellau y mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi'u rhoi ar yr etholiad a'u bod yn cael unrhyw fanylion cyswllt ar gyfer tîm cyfryngau'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol cyn y broses dilysu a chyfrif. Dylech wneud yn siŵr eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu os gofynnir unrhyw gwestiynau etholiadol technegol iddynt.

3.19 Yn ogystal â gwneud trefniadau ymarferol ar gyfer eu presenoldeb, dylai unrhyw gyswllt cynnar â'r cyfryngau gael ei wneud o fewn fframwaith y cyfryngau a luniwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a gall gynnwys esboniad o'r prosesau i'w dilyn ac amseroedd disgwyliedig gorffen y cyfrif a datgan cyfansymiau lleol.

3.20 Os yw cynrychiolwyr o'r cyfryngau wedi cael eu hachredu'n arsylwyr gan y Comisiwn a'u bod yn bresennol yn rhinwedd y rôl honno, mae ganddynt yr un hawliau a rhwymedigaethau ag unrhyw arsylwr achrededig arall. Fel unrhyw arsylwyr eraill, mae'n ofynnol iddynt ystyried Cod ymarfer y Comisiwn i arsylwyra rhaid iddynt gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad a wnewch ynghylch defnyddio camerâu a chyfarpar recordio arall.

3.21 Er mwyn eich helpu chi a'ch tîm cysylltiadau cyhoeddus, rydym wedi cynhyrchu, ar y cyd â darlledwyr newyddion teledu cenedlaethol, rai 'awgrymiadau ar gyfer rheoli'r cyfryngau yn ystod y broses gyfrif'.

I gael canllawiau ymarferol ar gydgysylltu â'r cyfryngau, gweler ein hadnodd dilysu a chyfrif 'Cynllunio ar gyfer prosesau dilysu a chyfrif effeithiol: pecyn cymorth i Swyddogion Canlyniadau'.

4 Derbyn deunyddiau o'r gorsafoedd pleidleisio a blychau papurau pleidleisio post wedi'u selio

Er mwyn gallu sicrhau'r canlyniadau a nodwyd yn safonau perfformiad 1 a 2, bydd angen i chi sicrhau y caiff prosesau cyfrif eu cynllunio a'u rheoli er mwyn sicrhau canlyniad cywir, gyda thrywydd archwilio clir.

Er mwyn dangos bod modd sicrhau'r canlyniadau, bydd angen i chi gael trefniadau ar waith i gynnal trywydd archwilio clir o'r prosesau cyfrif.

4.1 Wrth baratoi, dylech lunio templedi ar gyfer pob dogfen a gaiff ei chwblhau yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif a rhoi trywydd archwilio clir. Ceir rhagor o ganllawiau ar sicrhau trywydd archwilio clir o'r prosesau cyfrif yn yr adran hon, yn **Adran 6** – **Dilysu** ac yn **Adran 7** – **Y broses gyfrif**.

4.2 Mae derbyn blychau pleidleisio a deunyddiau oddi wrth orsafoedd pleidleisio mewn ffordd gywir a threfnus yn elfen allweddol o broses ddilysu gywir. Dylai'ch tîm o staff sy'n derbyn deunyddiau oddi wrth orsafoedd pleidleisio ddefnyddio rhestr wirio er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrif am yr holl flychau pleidleisio a phapurau pleidleisio yn gywir, yn ogystal ag unrhyw becynnau sy'n cynnwys pleidleisiau post a roddwyd i staff gorsafoedd pleidleisio.

4.3 Lle y bydd yn ofynnol i Swyddogion Llywyddu gludo'r blychau pleidleisio i'r lleoliad dilysu a chyfrif, dylid egluro i'r staff sy'n derbyn y blychau pleidleisio na ddylid caniatáu i unrhyw Swyddogion Llywyddu adael nes bod eu blwch pleidleisio a'r holl ddogfennau a phecynnau wedi cael eu derbyn a'u gwirio gan yr aelod dynodedig o staff a, lle bynnag y bo modd, eu bod wedi bwrw golwg yn fras dros y cyfrif papurau pleidleisio. Dylid cyfarwyddo'r staff sy'n derbyn blychau pleidleisio i sicrhau eu bod yn cael y cyfrif papurau pleidleisio ar gyfer pob blwch pleidleisio.

4.4 Ar ôl eu derbyn, gellir trosglwyddo'r cyfrifon papurau pleidleisio i'r staff sy'n ymwneud â rheoli'r broses o ddilysu blychau pleidleisio a gall yr holl ddeunyddiau a dderbyniwyd o'r gorsafoedd pleidleisio gael eu rhyddhau gan y staff sy'n eu derbyn a'u rhoi i'r timau perthnasol, sy'n ei gwneud yn bosibl i'r broses o ddilysu'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd ac agor pleidleisiau post ddechrau.

4.5 Dylai'r sachau sy'n cynnwys y dogfennau y mae angen eu storio, megis rhestrau rhifau cyfatebol wedi'u selio, gael eu gwahanu oddi wrth y rhai sy'n cynnwys eitemau a gaiff eu hailddefnyddio, megis deunyddiau ysgrifennu

cyffredinol. Dylai'r pecynnau a'r parseli o'r gorsafoedd pleidleisio gael eu trefnu mewn ffordd sy'n ei gwneud yn hawdd dod o hyd i unrhyw becyn.

4.6 Rhaid i bob pecyn o bapurau pleidleisio a ddifethwyd a phapurau pleidleisio nas defnyddiwyd gael ei agor a'i gyfrif ac yna'i selio, gyda'r niferoedd a gyfrifwyd yn cael eu rhoi i'r aelodau hynny o staff sy'n gyfrifol am y broses ddilysu. Cewch eich gwahardd rhag agor y pecynnau wedi'u selio o bapurau pleidleisio a gyflwynwyd, ond rhaid i chi agor y pecyn sy'n cynnwys y rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd er mwyn gwirio'r rhestr yn erbyn y cyfrifon papurau pleidleisio ac yna'i ailselio.

4.7 Ni chaniateir i chi agor y pecynnau wedi'u selio sy'n cynnwys y rhestrau rhifau cyfatebol a'r tystysgrifau cyflogaeth, y copïau wedi'u marcio o'r gofrestr a'r rhestrau o ddirprwyon. Dylech sicrhau bod y deunyddiau y mae'n rhaid i chi eu cadw dan sêl wedi'u gosod mewn man penodol a diogel drwy gydol y prosesau dilysu a chyfrif.

Derbyn blychau papurau pleidleisio drwy'r post wedi'u selio

4.8 Bydd papurau pleidleisio post a gafodd eu derbyn a'u hagor yn gynharach wedi cael eu prosesu a dylid dod â hwy i'r lleoliad dilysu a chyfrif mewn bylchau pleidleisio wedi'u selio, ynghyd â chyfrif papurau pleidleisio ar gyfer pob blwch pleidleisiau post. Dylai'r staff sy'n derbyn y blychau pleidleisiau post ddefnyddio rhestr wirio er mwyn sicrhau y cyfrifir am bob blwch pleidleisio post a phob cyfrif papurau pleidleisio post yn gywir.

4.9 Rhaid i bob pecyn a phob blwch pleidleisio sy'n cynnwys papurau pleidleisio drwy'r post gael eu dilysu yn yr un modd ag unrhyw flwch pleidleisio o orsaf bleidleisio. Gan y bydd y rhain yn aml ymhlith y blychau cyntaf i'w dilysu, maent yn cynnig cyfle i ennyn hyder yn y broses ac yn y cyfrif yn gyffredinol.

5 Dilysu

5.1 Mae i ddilysu dau brif ddiben - sicrhau a dangos bod yr holl bapurau pleidleisio a ddosbarthwyd mewn gorsafoedd pleidleisio a'r holl bapurau pleidleisio post a ddychwelwyd wedi cael eu cludo i'r cyfrif, a rhoi'r ffigur y mae'n rhaid i'r cyfansymiau lleol yn yr ardal gyfrif fod yn gyson ag ef. Dylech gofio am y ddau ddiben wrth gynnal y broses ddilysu.

5.2 Dylai hyfforddiant i Swyddogion Llywyddu ar gwblhau cyfrifon papurau pleidleisio, ynghyd â chyfrifon papurau pleidleisio sydd wedi'u paratoi mewn fformat clir a hawdd ei gwblhau, helpu i roi sylfaen gadarn i'r broses ddilysu

Ceir gwybodaeth am hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio, yn cynnwys ymarfer cyfrif papurau pleidleisio enghreifftiol, yn Rhan B – Cynllunio a threfnu.

5.3 Mae dilysu'r papurau pleidleisio a ddefnyddiwyd, nas defnyddiwyd ac a ddifethwyd yn ofyniad cyfreithiol, ac mae'n ganolog i'r broses o ddatgan cyfansymiau lleol cywir.

5.4 Rhaid i chi ddilysu pob cyfrif papurau pleidleisio a pharatoi datganiad am ganlyniad y broses ddilysu. Mae hwn yn gofnod o nifer y papurau pleidleisio a ddisgwyliwyd a nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, ynghyd ag esboniad o unrhyw amrywiadau.

5.5 Caiff unrhyw asiant wneud copi ohono, ac yn wir, dylech sicrhau bod copïau ohono ar gael i'r asiantiaid sy'n bresennol unwaith bod y broses ddilysu wedi'i chwblhau. Mae'r datganiad dilysu yn adnodd cyfathrebu allweddol a fydd yn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantiaid yn hyderus bod y prosesau dilysu a chyfrif yn dryloyw ac y byddant yn arwain at ganlyniad cywir.

5.6 Fel gyda phob agwedd ar y broses dilysu a chyfrif, mae tryloywder yn allweddol a dylai'r broses a ddilynwyd fod yn glir i bawb sy'n bresennol.

5.7 Mae camau allweddol y broses ddilysu fel a ganlyn:

a. Rhaid i staff agor y pecynnau o bapurau pleidleisio nas defnyddiwyd a chadarnhau nifer y papurau pleidleisio nas dosbarthwyd drwy nodi nifer y llyfrau a nifer y papurau pleidleisio sy'n weddill mewn unrhyw lyfr rhannol o bapurau pleidleisio y tu mewn i'r pecyn. Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r pecynnau o bapurau pleidleisio a ddifethwyd gael eu hagor hefyd a'u cyfrif. Rhaid i'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd gael eu hailselio ar ôl iddynt gael eu cyfrif.

b. Rhaid i'r staff dorri'r seliau ac agor y blychau pleidleisio ym mhresenoldeb unrhyw asiantiaid cyfrif ac arsylwyr sy'n bresennol. Pan fydd asiant wedi atodi sêl i flwch ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio, dylid cymryd gofal mawr i ddangos i unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n

bresennol bod y sêl hon heb ei thorri cyn iddi gael ei thorri. Dylid arllwys y papurau pleidleisio yn ofalus ar y bwrdd, gan sicrhau nad oes yr un wedi syrthio i'r llawr a bod y blwch yn wag.

c. Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod y papurau pleidleisio **yn wynebu i lawr** drwy gydol y broses ddilysu.

d. Dylech ddangos y blwch gwag i'r asiantiaid a'r arsylwyr fel y gallant fod yn fodlon bod y blwch yn wirioneddol wag. Yna dylai'r cynorthwywyr cyfrif agor y papurau pleidleisio a'u cyfrif yn fwndeli. Mae cywirdeb ar y cam hwn yn hollbwysig, felly dylai'r bwndeli gael eu trosglwyddo i gynorthwyydd arall i'w hailgyfrif. Dylai unrhyw bapurau pleidleisio a gyflwynwyd a roddwyd yn y blwch pleidleisio ar gam yn ystod y dydd gael eu tynnu oddi yno a'u rhoi i'r goruchwyliwr.

e. Rhaid i'r cyfansymiau a roddwyd ar y cyfrif papurau pleidleisio gael eu cymharu â nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac y cofnodwyd eu bod yn bresennol y tu mewn i'r blwch pleidleisio. Rhaid i chi gymharu'r papurau pleidleisio nas defnyddiwyd a'r papurau pleidleisio a ddifethwyd, yn ogystal â'r rhestr o bleidleisiau a gyflwynwyd, â'r ffigurau ar bob cyfrif papurau pleidleisio. Dylai cyfanswm nifer y papurau pleidleisio yn y blwch pleidleisio fod yn gyson â'r cyfanswm ar y cyfrif papurau pleidleisio, ac yn gyson â chyfanswm nifer y papurau pleidleisio nas defnyddiwyd.

5.8 Os na fydd cyfrif papurau pleidleisio yn gyson, dylech ddilyn y weithdrefn ganlynol a dogfennu'r canlyniad ar y datganiad dilysu priodol:

a. Gwiriwch y symiau adio ar y cyfrif papurau pleidleisio yn llawn. Edrychwch ar y pecynnau eraill o ddeunyddiau a ddychwelwyd ac unrhyw gofnodlyfr gan yr orsaf bleidleisio er mwyn ceisio nodi unrhyw reswm dros bapurau pleidleisio coll neu ychwanegol. Sicrhewch nad yw'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd wedi cael eu hychwanegu at nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn yr orsaf bleidleisio. Dylech ystyried cysylltu â'r Swyddog Llywyddu a gofyn iddo/iddi geisio esbonio unrhyw anghysonderau.

b. Edrychwch ar y cofnod o flychau pleidleisio a ddosbarthwyd i weld a gafodd mwy nag un blwch pleidleisio ei ddosbarthu i'r orsaf bleidleisio a sicrhewch fod yr holl flychau a ddyrannwyd i'r orsaf yn cael eu hagor ac y cyfrifir amdanynt.

c. Gwiriwch y blychau pleidleisio ar gyfer yr holl orsafoedd pleidleisio yn yr un man pleidleisio. Efallai y bydd y broses o ddilysu'r cyfrifon papurau pleidleisio ar gyfer y gorsafoedd pleidleisio eraill yn y lleoliad hwnnw yn dangos gwall cydadferol am fod etholwyr wedi gosod eu papur pleidleisio yn y blwch ‘anghywir’ neu mewn blwch o'r orsaf bleidleisio anghywir. Os bydd y gwallau cydadferol yn gwrthbwyso ei gilydd, gellir tybio bod y broses ddilysu wedi bod yn llwyddiannus.

d. Os daw'r blwch pleidleisio o un orsaf bleidleisio, neu os nad oes unrhyw wall cydadferol yn ffigurau'r orsaf bleidleisio arall/gorsafoedd pleidleisio eraill yn y man pleidleisio hwnnw, ail-gyfrifwch y papurau pleidleisio yn y blwch o leiaf ddwywaith eto, neu hyd nes bod yr un ffigur yn cael ei gyfrif ar ddau achlysur yn olynol.

e. Os bydd unrhyw anghysondeb o hyd, ar ôl dilyn y gweithdrefnau a amlinellir uchod, defnyddiwch nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a ail-gyfrifwyd gan y staff cyfrif fel y ffigur a ddilyswyd a gwnewch nodyn priodol ar y cyfrif papurau pleidleisio.

f. Ychwanegwch y cyfanswm a ddilyswyd a'r amrywiad rhwng hwnnw a'r nifer ar y cyfrif papurau pleidleisio at y datganiad am ganlyniad y broses ddilysu, gan esbonio pam bod yr amrywiad hwnnw wedi digwydd os oes modd, a thrafodwch hyn ag unrhyw asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol.

5.9 Dim ond ar ôl i'r holl bapurau pleidleisio post, gan gynnwys y rhai a dderbyniwyd mewn gorsafoedd pleidleisio, gael eu hagor a'u prosesu, a'u dilysu, y gellir cwblhau'r broses ddilysu.

5.10 Rhaid i chi sicrhau bod y datganiad dilysu sy'n cynnwys canlyniad y broses o ddilysu pob blwch pleidleisio wedi'i gwblhau. Mae'n rhaid i'r datganiad gynnwys cyfanswm y papurau pleidleisio post a chyfanswm y papurau pleidleisio a ddilyswyd ar gyfer y digwyddiad pleidleisio. Dylech lofnodi'r datganiad. Yna, rhaid i chi rannu cynnwys y datganiad â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn unol ag unrhyw arweiniad neu gyfarwyddyd a roddwyd ganddo, a phan fydd y broses ddilysu wedi'i chwblhau, sicrhau bod copïau ar gael i unrhyw asiant sy'n bresennol.

5.11 Ar ôl cwblhau'r broses ddilysu, os na fyddwch yn dechrau cyfrif y pleidleisiau ar unwaith, dylech roi'r papurau pleidleisio a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r etholiad mewn pecynnau diogel a rhoi eich sêl eich hun arnynt, yn ogystal â sêl unrhyw asiantiaid sy'n bresennol sy'n dymuno atodi eu seliau eu hunain. Dylech gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau diogelwch y papurau pleidleisio a'r deunyddiau ysgrifennu perthnasol yn ystod unrhyw doriad yn ystod y prosesau dilysu a chyfrif.

5.12 Ceir rhagor o ganllawiau ar sicrhau diogelwch blychau pleidleisio ym mharagraff 2.26 uchod.

6 Y broses gyfrif

Cyfrif y pleidleisiau

6.1 Wrth benderfynu sut y byddwch yn cynnal y broses gyfrif, arfer eich pwerau a chyflawni eich dyletswyddau, dylech ystyried unrhyw arweiniad a dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol.

Derbyn y blychau

6.2 Os bydd y blychau sy'n cynnwys y papurau pleidleisio a ddilyswyd yn cael eu storio i ffwrdd o leoliad y cyfrif, nid oes raid i'r blychau hyn gael eu derbyn ym mhresenoldeb asiantiaid nac yn ystod y broses gyfrif, ond ni ddylid agor y blychau ar yr adeg hon. Fodd bynnag, dylid gwirio nifer y blychau a ddosbarthwyd yn erbyn y nifer a roddwyd yn y storfa ddiogel, gyda system ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl flychau perthnasol wedi cael eu dychwelyd, yn barod i gael eu hagor ar ddechrau'r broses gyfrif.

6.3 Ni ellir agor unrhyw flwch tan amser dechrau'r broses gyfrif, gan mai dyna'r amser fydd wedi cael ei roi i'r ymgeiswyr, asiantiaid a'r bobl eraill sydd â hawl i fod yn bresennol yn y broses gyfrif. Dylai pob blwch gael ei agor gerbron unrhyw asiantiaid sy'n bresennol. Pan fydd asiant wedi atodi sêl i flwch, dylid cymryd gofal mawr i ddangos i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol bod y sêl hon heb ei thorri cyn iddi gael ei thorri.

Cymysgu

6.4 Rhaid i chi gymysgu'r papurau pleidleisio er mwyn sicrhau bod papurau pleidleisio o bob blwch pleidleisio wedi'u cymysgu â phapurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf, a chymysgu'r papurau pleidleisio drwy'r post â phapurau pleidleisio o un blwch pleidleisio arall o leiaf cyn didoli a chyfrif y pleidleisiau.

Didoli a chyfrif

6.5 Yn wahanol i'r broses ddilysu, rhaid i bapurau pleidleisio wynebu i fyny drwy gydol y broses gyfrif er mwyn atal unrhyw un rhag gweld y rhif a'r marc adnabod unigryw arall ar gefn y papur pleidleisio. Dylai'r papurau pleidleisio fod yn weladwy drwy'r amser i unrhyw ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr sy'n bresennol.

6.6 Dylai cynorthwywyr cyfrif ddidoli'r papurau pleidleisio yn bleidleisiau ar gyfer pob plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol. Dylai unrhyw bapurau pleidleisio amheus gael eu rhoi o'r neilltu er mwyn dyfarnu yn eu cylch.

6.7 Dylid cyfrif nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob plaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol a'u rhoi mewn bwndeli o nifer ragnodedig, e.e. bwndeli o 20, 25, 50 neu 100. Dylid atodi slip ag enw'r blaid wleidyddol neu ymgeisydd unigol arno, ynghyd â'r nifer yn y bwndel, ar y blaen. Efallai y byddai lliwiau gwahanol ar gyfer y slipiau yn ddefnyddiol. Yna dylai'r bwndeli gael eu hailgyfrif gan gynorthwyydd cyfrif arall er mwyn sicrhau cywirdeb y bwndel.

6.8 Cyn mynd ag unrhyw fwndeli oddi wrth y staff cyfrif, dylai goruchwylwyr fwrw golwg dros y bwndeli er mwyn sicrhau bod yr holl bleidleisiau yn y bwndel wedi'u marcio yn yr un ffordd.

6.9 Mae'n annhebygol y bydd nifer y pleidleisiau yn y bwndel olaf yn hafal i nifer ragnodedig y bwndel, ac felly dylid gwneud nodyn o nifer y pleidleisiau yn y bwndeli anghyflawn hynny a'i atodi ar flaen y bwndel.

Papurau pleidleisio amheus

6.10 Dylech ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus yn rheolaidd wrth i'r cyfrif fynd rhagddo: ni ddylid gadael y broses o ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus tan ddiwedd y cyfrif.

6.11 Dylech ystyried llyfryn y Comisiwn ar bapurau pleidleisio amheus drwy gydol y broses ddyfarnu. Mae'r llyfryn yn cynnwys enghreifftiau o bleidleisiau a ganiateir a phleidleisiau a wrthodir a'r egwyddorion allweddol i'w dilyn wrth ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus.

6.12 Hefyd, nodir enghreifftiau o bapurau pleidleisio a ganiateir a phapurau pleidleisio a wrthodir ar y matiau bwrdd papurau pleidleisio amheus y dylech eu harddangos yn y broses gyfrif er mwyn i ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr gyfeirio atynt.

6.13 Wrth ddyfarnu ynglŷn â phapurau pleidleisio amheus, dylech wneud y canlynol:

- byddwch yn glir ac yn gyson bob amser
- cymerwch amser i sicrhau y gwneir penderfyniad ystyriol ym mhob achos
- penderfynwch a yw bwriad y pleidleisiwr yn ymddangos yn glir ar y papur pleidleisio.

6.14 Fel rhan o hyn, bydd angen i chi:

- ystyried y papur pleidleisio cyfan
- ystyried a yw'r ffordd y cafodd papur pleidleisio ei farcio yn golygu bod pleidlais dros un ymgeisydd unigol neu blaid yn hollol amlwg

6.15 Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu bod yn rhaid i chi wrthod papur pleidleisio:

- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol (nid y marc adnabod unigryw)
- sy'n cynnwys pleidlais ar gyfer mwy nag un blaid neu ymgeisydd unigol

- os bydd unrhyw beth wedi'i ysgrifennu neu wedi'i farcio arno sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr (ac eithrio rhif y papur pleidleisio argraffedig neu farc adnabod unigryw arall)
- nad yw wedi'i farcio neu sy'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd

6.16 Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi, oni bai bod modd adnabod y pleidleisiwr oherwydd y ffordd y marciwyd y papur pleidleisio, na chaniateir i chi wrthod papur pleidleisio y marciwyd y bleidlais arno yn y ffyrdd canlynol os yw bwriad y pleidleisiwr yn amlwg:

- rywle arall yn hytrach na'r man priodol
- mae'r bleidlais wedi'i marcio mewn ffordd arall ar wahân i groes
- mae'r bleidlais wedi'i marcio drwy fwy nac un marc

6.17 At hynny, efallai y bydd angen ystyried ymhellach unrhyw bapurau pleidleisio sy'n arddangos unrhyw rai o'r canlynol:

- unrhyw bapur pleidleisio sy'n cynnwys unrhyw beth anarferol (er enghraifft, ymddengys ei fod wedi'i newid, naill ai â theclyn ysgrifennu cwbl wahanol neu â hylif cywiro)
- unrhyw bapur pleidleisio sydd wedi'i dorri neu wedi'i ddifrodi mewn unrhyw ffordd

6.18 Dylid trin unrhyw bapurau pleidleisio yr ymddengys eu bod wedi cael eu newid, naill ai â theclyn ysgrifennu cwbl wahanol neu â hylif cywiro, fel rhai ‘amheus’ a dylid cyflwyno dyfarniad yn eu cylch lle y bydd yn rhaid i chi benderfynu ar eu dilysrwydd ym mhresenoldeb ymgeiswyr, asiantiaid ac arsylwyr. Rhaid i'r rhai y datganwyd eu bod yn ddilys wedyn gael eu cyfrif a'u cynnwys yng nghyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros y blaid neu'r ymgeisydd priodol yn yr etholiad.

6.19 Mae'ch penderfyniad ynglŷn ag unrhyw gwestiwn sy'n codi mewn perthynas â phapur pleidleisio yn derfynol a dim ond drwy ddeiseb etholiadol y gellir ei herio. Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd ac am ba reswm. Felly dylai fod gennych system ar waith drwy gydol y broses ddyfarnu ar gyfer didoli'r papurau pleidleisio a wrthodwyd o dan y penawdau canlynol:

- dim marc swyddogol
- pleidleisio dros fwy nag un blaid gofrestredig neu ymgeisydd unigol
- ysgrifen neu farc sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr
- heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd

6.20 Dylech ystyried canllawiau'r Comisiwn ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff y pleidleisiau a wrthodir eu categoreiddio mewn ffordd gywir a chyson er mwyn eu cofnodi ar y datganiad.

6.21 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod y gair 'gwrthodwyd' yn cael ei farcio ar bob papur pleidleisio fel y bo'n briodol, a rhaid ychwanegu'r geiriau 'gwrthwynebwyd y penderfyniad i wrthod' os bydd asiant cyfrif yn

gwrthwynebu'ch penderfyniad. Er y dylai fod modd i arsylwyr arsylwi ar y broses hon, yn wahanol i asiantiaid, nid oes ganddynt hawl gyfreithiol i wrthwynebu penderfyniad i wrthod papur pleidleisio.

6.22 Dylai copi o'r datganiad gwrthod gael ei osod yn y pecyn ar gyfer papurau pleidleisio a wrthodwyd.

Papurau pleidleisio a dorrwyd

6.23 Efallai y byddwch yn dod ar draws achosion lle mae pleidleiswyr wedi torri rhan o'r papur pleidleisio. Wrth benderfynu a oes modd cyfrif darn o bapur pleidleisio bydd yn dibynnu ar b'un a yw'n cynnwys y marc swyddogol.

6.24 Os yw'n ei gynnwys, gellir derbyn y papur pleidleisio fel pleidlais ddilys, ar yr amod eich bod yn fodlon ar y canlynol:

- mae bwriad y pleidleisiwr yn amlwg
- nid oes unrhyw rai o'r rhesymau dros wrthod yn berthnasol

Gweler Pennod 6 o Ran Ch: Pleidleisio absennol i gael canllawiau ar sut i ddelio â phapurau pleidleisio wedi'u torri wrth agor pleidleisiau post.Cysoni

6.25 Ar ôl i'r holl bapurau pleidleisio gael eu didoli ac ar ôl i ddyfarniadau ynglŷn ag unrhyw bleidleisiau amheus gael eu gwneud, gall y dasg allweddol o gysoni ddechrau.

6.26 Rhaid i'r holl fwndeli a bwndeli rhannol o bapurau pleidleisio sy'n dangos pleidlais ddilys ar gyfer pob plaid ac unigolyn gael eu cyfrif. Wedyn, rhaid ychwanegu'r cyfanswm ar gyfer pob plaid ac unigolyn at gyfanswm nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd, a dylai'r cyfanswm hwn gyfateb yn union i'r ffigur sy'n rhoi cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a gafwyd ar ddiwedd y broses ddilysu. Os bydd y ddau ffigur yn gyson, dylech fwrw ymlaen â'r broses o ymgynghori â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ynglŷn â chyfanswm lleol dros dro.

6.27 Dylech fod yn fodlon bod y cyfanswm yn adlewyrchu'r pleidleisiau a gafwyd ac felly os na fydd y ffigurau'n gyson â'i gilydd, dylid dilyn y weithdrefn ganlynol er mwyn ceisio nodi ac unioni'r anghysondeb:

- Edrychwch yn y man storio a sicrhewch fod yr holl flychau pleidleisio wedi cael eu hagor a'u bod yn wag.
- Edrychwch ar y lloriau a'r arwynebau rhag ofn bod papurau pleidleisio wedi cael eu gollwng yn lleoliad y cyfrif.
- Edrychwch eto ar y ffigurau dilysu a'r ymarfer cysoni rhag ofn eu bod yn cynnwys camgymeriadau cyfrifo.
- Sicrhewch eich bod wedi cyfrif am bob papur pleidleisio a wrthodwyd.
- Sicrhewch fod yr holl fwndeli a bwndeli rhannol wedi cael eu cyfrif.

- Ystyriwch ailgyfrif y papurau pleidleisio yn y bwndeli.

6.28 Dylech hefyd wneud unrhyw wiriadau eraill sy'n angenrheidiol, yn eich tyb chi.

Cyfansymiau lleol dros dro ac ailgyfrif

6.29 Dylech fod yn fodlon bod nifer y pleidleisiau dros bob plaid ac ymgeisydd unigol yn gywir cyn bwrw ymlaen â rhannu'r cyfansymiau lleol dros dro.

6.30 Pan fyddwch yn fodlon, rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol am y cyfansymiau lleol dros dro. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn rhoi arweiniad neu gyfarwyddiadau i chi ynghylch sut y dylai'r prosesau ar gyfer rhannu cyfansymiadu lleol dros dro a delio ag unrhyw geisiadau am ailgyfrifon gael eu rheoli.

6.31 Dylai'r ymgeiswyr a'r asiantiaid, yn cynnwys yr asiant cyfrif dynodedig ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol hefyd gael y cyfansymiau lleol dros dro, ond ni ellir gwneud hyn cyn 10pm ddydd Sul 26 Mai. Ni ddylid datgelu'r cyfansymiau lleol i unrhyw un heblaw Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu ei staff tan ar ôl yr amser perthnasol sef 10pm ddydd Sul 26 Mai.

6.32 Rhaid i chi roi digon o amser i'r ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac asiantiaid cyfrif perthnasol amgyffred y cyfanswm lleol dros dro. Dylech egluro iddynt mai dyma'r adeg y gall unrhyw ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant cyfrif dynodedig ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol wneud cais am i'r pleidleisiau ar gyfer yr ardal gyfrif gael eu hailgyfrif neu, ar ôl ailgyfrif, eu hailgyfrif eto. Ni all unrhyw asiantiaid cyfrif eraill nac unigolion sy'n bresennol yn y cyfrif, yn cynnwys arsylwyr, wneud cais am ailgyfrif.

6.33 Dylai'r broses hon gael ei chynnal o fewn fframwaith mor agored a thryloyw â phosibl sy'n cael ei weithredu drwy'r amrywiol brosesau fel y gall pob ymgeisydd ac asiant ymddiried yn y prosesau a'r cyfanswm lleol dros dro a roddwyd.

6.34 Rhaid i chi ystyried unrhyw gais am ailgyfrif ond cewch wrthod y cais os yw'n afresymol, yn eich barn chi. Fodd bynnag, cewch ystyried cynnig cyfle i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid archwilio'r bwndeli o bapurau pleidleisio fel ffordd o gael sicrwydd bod y canlyniad/cyfanswm lleol yn gywir.

6.35 Os byddwch yn cytuno i ailgyfrif y pleidleisiau, dylai'r ymgeiswyr a'r asiantiaid sy'n bresennol gael eu hysbysu cyn i'r ailgyfrif ddechrau a'u briffio ar y prosesau y bwriadwch eu dilyn. Fel yn achos y broses gyfrif wreiddiol, dylid cynnal unrhyw broses ailgyfrif yng ngolwg y rhai sy'n bresennol. Mae gennych hawl i ailystyried pa bapurau pleidleisio y dylid eu gwrthod yn ystod y broses ailgyfrif (neu unrhyw broses ailgyfrif arall).

6.36 Dylid hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a dylid ymgynghori â'r ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac asiantiaid cyfrif perthnasol ar y cyfanswm

lleol dros dro diwygiedig yn yr un ffordd ag yr ymgynghorwyd â nhw ar y cyfanswm dros dro blaenorol.

6.37 Mae modd cynnal mwy nag un broses ailgyfrif. Unwaith eto, rhaid i chi ystyried unrhyw gais am ailgyfrif a chewch wrthod y cais os yw'n afresymol, yn eich barn chi.

6.38 Pan fydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a'r ymgeiswyr ac asiantiaid wedi ystyried y cyfanswm lleol dros dro, sy'n cynnwys ystyried unrhyw geisiadau ar gyfer unrhyw ailgyfrifiad(au) a'u cynnal, gallwch gyhoeddi'r cyfanswm lleol.

6.39 Pan fyddwch wedi cwblhau unrhyw ailgyfrifiadau, mae'n rhaid i chi lunio datganiad yn dangos:

- cyfanswm y pleidleisiau a roddir ar gyfer pob plaid wleidyddol a phob ymgeisydd unigol
- cyfanswm y papurau pleidleisio a wrthodwyd

6.40 Pan fydd y datganiad wedi'i gwblhau, rhaid i chi hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o'i gynnwys. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi datblygu protocol ar gyfer rhannu'r cyfansymiau lleol, y dylid eu dilyn.

6.41 Pan fydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi eich awdurdodi i wneud hynny, rhaid i chi roi hysbysiad cyhoeddus o'r datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd, wedi'u rhannu i'r categorïau perthnasol.

6.42 Yn ogystal â chyfathrebu cynnwys y datganiadau i'r sawl sy'n bresennol yn y cyfrif, dylech hefyd sicrhau y caiff y cyfansymiau lleol eu cyfathrebu i bleidleiswyr, er enghraifft, drwy gyhoeddi'r datganiadau ar wefan yr awdurdod lleol ac yn unrhyw fannau o fewn yr awdurdod y mae etholwyr yn mynd iddynt.

Er mwyn gallu cyflawni'r hyn a nodwyd yn safon perfformiad 1, bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael gwybod am y cyfansymiau lleol mewn ffordd glir ac amserol.

Er mwyn dangos bod modd i chi gyflawni'r hyn a nodwyd, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i gyfleu'r cyfansymiau lleol i bleidleiswyr.

Dyrannu seddi

6.43 Y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynnal y cyfrifiad ar ddyrannu seddi yn y rhanbarth etholiadol.

Mae canllawiau ar ddyrannu seddi a chyhoeddi'r canlyniad ar gyfer y rhanbarth etholiadol wedi'i gynnwys yn ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol.

Ceir canllawiau ar yr hyn y bydd angen i chi ei wneud ar ôl cyhoeddi'r canlyniad ar gyfer y rhanbarth etholiadol yn Rhan Dd: Ar ôl datgan y canlyniad.